

## Dysgwyr uchelgeisiol sy'n gyfranwyr mentrus creadigol, yn unigolion iach, hyderus ac yn ddinasyddion egwyddorol gwybodus.

### Mathemateg a Rhifedd

- Yn y gwersi Mathemateg, byddwn yn edrych ar luosi, rhannu, mesur ac arian.
- Byddwn yn cymhwyso'r sgiliau hyn drwy ein thema cyffrous, Y Ffair gan fesur gwahanol reidiau a dod o hyd i'w perimedrau ac arwynebeddau.
- Caiff y disgyblion gyfle i brynu nwyddau gan ddelio gyda gwariant, cyllideb a gwario arian poced.

### Iaith a Llythrennedd

- Byddwn yn dechrau'r thema drwy ddefnyddio ein synhwyrâu i ddisgrifio gwahanol reidiau yn y ffair.
- Caiff y disgyblion gyfle i ddefnyddio eu emosiynau i ysgrifennu ymson o'u profiad yn y ffair.
- Byddwn yn chwarae rôl yn ystod yr hanner tymor hwn ac yn mynegi barn drwy lythyr ffurfiol am ffair yn dod i dref Llanrwst.
- Bydd y disgyblion yn creu gwahoddiad deniadol 'Dewch i'r Ffair' gan ddefnyddio sgrin werdd fel ffordd o atynnu gwesteion.

### Dyniaethau

- Bydd y disgyblion yn ysgrifennu llythyr ffurfiol i'r cyngor am effaith ffair yn dod i Lanrwst. Bydd trafodaethau am y gymuned, traffig, colled / elw, amgylchfyd.
- Ymchwilio i barciau antur ar draws Ewrop a threfnu ymweliad teuluol yno.
- Bydd gennym wythnos Addysg Grefyddol yn nes at y Nadolig ymhle byddwn yn dathlu ac astudio Nadolig y Cristion.

### Gwybodaeth i Rieni

**Bl 3 a 4**

**Hydref 2020**

**Y Ffair**



Ysgol Bro Gwydir



@Ysgolbrogwydir

### Gwybodaeth Bwysig

Anfonwch eich plentyn i'r Ysgol yn brydlon gan anelu at bresenoldeb o 100%.  
Darllenwch gyda'ch plentyn bob dydd gan arwyddo'r Cofnod Darllen.  
Os dymunwch drafod unrhyw fater, cysylltwch â'r Ysgol ar 01492 640342.

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Bydd y disgyblion yn trafod bwyd iach ac afiach a'u heffaith ar eu corff. Cawn hefyd gyfle i greu cebab iachus, blasus!
- Byddwn yn trafod hylendid corfforol a'r newidiadau sy'n ein wynebu wrth dyfu'n hŷn.
- Caiff y disgyblion gyfle i ddylunio a chreu reid eu hunain gan ddefnyddio lego a deunyddiau ailgylchu.
- Tybed pwy fydd yn medru creu y tŵr mwyaf gan ddefnyddio sbagetî a malws melys?

### Celfyddydau Mynegiannol

- Caiff y disgyblion gyfle i ddefnyddio meddalwedd Garage Band er mwyn cyfansoddi cerddoriaeth ffair ar gyfer eu reid newydd sbon!
- Byddwn yn actio golygfeydd amrywiol yn y ffair - tybed pwy fydd yn mentro ar y tren sgrech a phwy fydd yn mwynhau'r afalau taffi a chandi fflos?!

### Techyd a Lles

- Yn ystod yr hanner tymor hwn, bydd sesiynau anturus yn cael eu cynnal gan Nant BH.
- Bydd gwersi ymarfer corff yn digwydd ddwywaith yr wythnos a bydd sesiynau amser cylch yn gyfle gwych i drafod a rhannu.
- Yn yr wythnos gyntaf byddwn yn edrych ar ddiogelwch ar noson tan gwyllt ac yn trafod rheolau'r Ffair.